Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Children, Young People and Education Committee

# Y Bil Cwricwlwm ac Asesu (Cymru)

## Canlyniadau'r Arolwg Plant a Phobl Ifanc

### Pwy ydyn ni?

Y **Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg** ydyn ni. Grŵp o wleidyddion yw'r Pwyllgor sydd â diddordeb mewn pynciau sy'n effeithio ar blant ledled Cymru. Rydyn ni'n ystyried ai'r penderfyniadau pwysig sy'n ymwneud â phlant a phobl ifanc yw'r rhai cywir. Ein **gwaith ni yw gwrando** arnyn nhw, a thrwy wneud hynny gallwn ni geisio gwella bywyd i blant yng Nghymru.

### Mae addysg yn newid

Mae'r hyn y mae plant a phobl ifanc am ei ddysgu yn yr ysgol yn newid. Mae hyn yn cynnwys y mathau o bethau y mae athrawon yn siarad amdanynt yn y dosbarth. Yr enw ar y pethau y mae plant yn dysgu amdanynt yn yr ysgol yw 'cwricwlwm'. Gallai'r **newidiadau olygu y bydd y diwrnod ysgol yn teimlo ychydig yn wahanol** yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru am greu cyfraith newydd i wneud i hyn ddigwydd. Ein gwaith ni yw **helpu i benderfynu sut beth fydd y gyfraith newydd.**

### Siarad gyda phlant a phobl ifanc

Roedden ni am glywed **barn plant a phobl ifanc am y cwricwlwm**. Roedd gennym ddiddordeb yn eu barn am y newidiadau. Gofynnwyd nifer o gwestiynau i blant, gan gynnwys beth oedden nhw am ei ddysgu yn y dyfodol.

### Pwy y buom yn siarad â nhw

Buom yn siarad â phlant a phobl ifanc ledled Cymru. Roedd y rhain yn cynnwys plant ym Mlwyddyn 5, a phob blwyddyn hyd at bobl ifanc ym Mlwyddyn 13.

### Beth glywsom ni gan blant a phobl ifanc

Roedd llawer o blant a phobl ifanc yn teimlo y bydd **yr hyn y mae nhw yn ei ddysgu nawr** yn yr ysgol yn eu **helpu wrth iddyn nhw dyfu i fyny**. Dywedon nhw hefyd yr hoffen nhw ddysgu pethau ychwanegol yn yr ysgol. Dywedon nhw y byddai **dysgu pethau ychwanegol** yn eu helpu yn y dyfodol. Awgrymodd plant a phobl ifanc lawer o bethau gwahanol yr hoffen nhw ddysgu mwy amdanynt. Roedd hyn yn cynnwys pethau ymarferol, fel dysgu sut i **ofalu am arian**. Roedd eraill am dreulio mwy o amser yn dysgu pynciau fel **Ffrangeg neu Sbaeneg**, neu'n dysgu am **hanes lleol**.

Dywedodd y rhan fwyaf wrthyn ni ei bod yn bwysig fod pob plentyn a pherson ifanc ledled Cymru **yn dysgu yr un mathau o bethau**. Mae hyn yn cynnwys **pa bynnag ysgol mae nhw'n mynd** a **ble bynnag mae nhw'n byw**. Dywedon nhw ei bod yn **bwysig y dylai pawb ddysgu** am **berthnasoedd iach** a **chrefyddau gwahanol**. Roedd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc hefyd yn teimlo ei bod yn **bwysig dysgu Cymraeg a Saesneg** yn yr ysgol.

Dywedodd plant a phobl ifanc hefyd y gallai'r **adborth y mae nhw'n ei gael o'r ysgol** gael ei wella. Adborth yw'r cymorth y mae plant yn ei gael gan eu hathrawon, fel marcio eu gwaith cartref neu siarad am rywbeth nad ydyn nhw'n ei ddeall. Dywedodd llawer eu bod yn teimlo bod yr adborth yn iawn, ond weithiau mae angen ei **egluro mewn ffordd wahanol**.

Roedd y rhan fwyaf o blant a phobl ifanc yn **cefnogi'r newidiadau**. Dywedon nhw hefyd ei bod yn bwysig iddyn nhw gael **rhoi eu barn am yr hyn y mae nhw'n ei ddysgu** a sut y caiff ysgolion eu rhedeg yn y dyfodol.

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Rydyn ni wedi clywed y pethau a ddywedodd plant a phobl ifanc wrthym. Rydyn ni hefyd wedi cael cyfle i siarad â rhieni, gofalwyr, athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill. Ar ôl clywed yr hyn sydd gan bawb i'w ddweud, byddwn ni'n dweud wrth Lywodraeth Cymru sut rydyn ni'n credu y gellir gwneud y gyfraith newydd yn well. Yna bydd holl Aelodau'r Senedd yn cael pleidleisio ar sut y bydd y gyfraith derfynol yn edrych. Os bydd yr Aelodau'n cytuno â'r gyfraith newydd, yna bydd yr hyn a gaiff ei ddysgu i blant a phobl ifanc mewn ysgolion yn newid yn y dyfodol.

Os hoffech gysylltu â ni, gallwch ffonio: **0300 200 6565**
neu anfon e-bost at: **seneddppia@senedd.cymru**

@SeneddPPIA

**Senedd Cymru**
**Welsh Parliament**

*Cynnwys wedi'i ddatblygu gan Wavehill*